# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Ddydd Llun 21ain Mawrth 2011 yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30yb.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| R M Davies | Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clec i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Roberts (Pennaeth yr Adran Cyfleusterau); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Cynrychioli** |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Cynghorydd y Cadeirydd fod un eitem, sef Cytundeb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod ar gyfer gwasanaethau ariannol a'r trysorlys, wedi cael ei gyflwyno i'r Clerc am ystyriaeth. Byddai'r eitem yn cael ei thrafod o dan ran II yr agenda.

1.2 Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau fod dynes 31 oed wedi marw mewn tân mewn tŷ yn oriau mân bore dydd Sul 19eg Mawrth 2011. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y gwasanaeth yn parhau gyda'i ymdrechion i ostwng y fath ddigwyddiadau.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU

2.1 Datganodd y Trysorydd ddiddordeb yn y mater brys ac fe ddywedodd y byddi'n gadael yr ystafell tra bod y drafodaeth yn digwydd.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2010 am gymeradwyaeth.

3.2 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig yr Awdurdod Tân ac Achub cynhaliwyd ar 10fed o Ragfyr 2010 am gymeradwyaeth

3.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ddau set o gofnodion fel cofnod cywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Dim materion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cynghorydd S Frobisher a'r Cynghorydd A M Jones yn eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd rhwng 11eg Rhagfyr a 21ain Mawrth 2011.

5.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau o gywiriad i baragraff 6 yr adroddiad, gan nad oedd cyfarfod wedi digwydd ar 17eg Mawrth 2011.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ALLDRO DROS DRO 2010-2011

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad oedd yn hysbysu'r Aelodau am yr alldro dros dro arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-2011.

6.2 Nododd y Trysorydd fod y tanwariant yn eithaf bychan oedd yn golygu ei fod wedi ei reoli'n dda gan y swyddogion drwy'r flwyddyn. Rhoddwyd y rhybudd arferol y gallai sefyllfa godi cyn diwedd y flwyddyn ariannol allai effeithio'r tanwariant.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant arfaethedig a chadarnhau y bydd yn cael ei gadw fel cronfa gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2010/11 os fydd y tuedd cyfredol mewn gwariant yn parhau.**

7 DANGOSYDDION DARBODUS

7.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiafswm ar gyfer 2011/12.

7.2 Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 31ain Ionawr 2011 er mwyn i'r cynnwys gael ei adolygu cyn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau mawr ac nid oedd unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad ychwaith felly fe argymhellwyd ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

7.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r pedair elfen isod:**
**(i) Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2011/12;**
**(iii) Strategaeth Buddsoddi;**
**(iv) Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiafswm**

8 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

8.1 Cyflwynwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Aelodau ynghyd â chopi o'r llythyr ymateb sydd wedi cael ei anfon i Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn cyflwyniad Mesur Llywodraeth Leol 2009, mae angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu Adroddiad Gwella Blynyddol o sut mae'r awdurdodau cyhoeddus yn gwneud darpariaeth i wella eu gwasanaethau. Bydd asesiadau llawnach o sut mae awdurdodau tân ac achub yng Nghymru'n perfformio yn cael eu cynhyrchu yn ddiweddarach. Roedd Alan Morris o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol i ddelio gydag unrhyw gwestiynau.

8.2 Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod yr adroddiad wedi cael ei amserlennu am drafodaeth yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 7fed Chwefror. Roedd Aelodau'n fodlon gyda'r adroddiad ar y cyfan ond codwyd pryderon am yr argymhellion ar flaenoriaethu gweithgareddau diogelwch ar y ffyrdd. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod ei rôl gyfrannog i ddiogelwch ar y ffyrdd ar draws Gogledd Cymru ond roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod hi'n bwysig nodi nad oedd yn ddyletswydd statudol. Nododd y Clerc fod y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol wedi sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogelwch fel rhan o'i gylch gwaith i ymdrin â diogelwch ar y ffordd.

8.3 Mae'n amlwg fod y Gwasanaeth yn mynychu mwy o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd na'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru; mae hyn oherwydd y newid mewn polisi sy'n golygu fod y Gwasanaeth Ambiwlans yn hysbysu'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd o bob damwain ar y ffordd maent yn mynychu, ac mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yna'n mynd hefyd, ac felly'n cyflwyno rhagor o wasanaethau i'r cyhoedd.

8.4 Nododd Alan Morris ei fod adroddiad cadarnhaol. Mae'r Awdurdod wedi gwneud paratoadau synhwyrol ar gyfer yr heriau ariannol sy'n ei wynebu. Mae amcanion gwella clir wedi cael eu gosod ac er bod yr Awdurdod yn gweithio'n galed i ostwng y nifer o danau, mae'n cydnabod fod angen gwneud mwy ac mae cynlluniau yn eu lle i wella. Nid oedd Alan Morris yn ystyried y cynnig diogelwch ar y ffordd i fod yn fater arwyddocaol a nododd fod yr Awdurdod wedi gosod targed i'w hunan i wella gwaith partneriaeth diogelwch ar y ffordd. Nododd fod yr Awdurdod wedi delio gydag argymhellion yr adroddiad Iechyd a Diogelwch hefyd.

8.5 Mae'r Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Clerc yn parhau'n fodlon fod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn gadarn. Nododd y Clerc y dylid rhoi ystyriaeth i faint mwy gallai'r Awdurdod wneud i ostwng y nifer o danau a phryd ddylai'r cyfrifoldeb syrthio ar y cymunedau a'r unigolion eu hunain i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain. Cytunodd y Prif Swyddog Tân a dywedodd o ganlyniad i Adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog yn 2006, fod yr Awdurdod wedi cynyddu ei rôl rhagweithiol wrth atal tanau ac roedd rhai unigolion yn parhau i anwybyddu'r negeseuon diogelwch tân.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Gwella Blynyddol a'r llythyr o ymateb anfonwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

9 COD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

9.1 Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno er mwyn hysbysu Aelodau o ddiwygiadau i 'Reolaethau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005' a'r gofyn i gynnwys Datganiad Llywodraethu yn y cyfrifon blynyddol.

9.2 Roedd yr adroddiad yn edrych am gymeradwyaeth Cod Llywodraethu Lleol hefyd. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel safon i fesur perfformiad yr Awdurdod yn ei erbyn mewn ymarfer hunan asesu ar ddiwedd y flwyddyn fyddai yna'n llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

9.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cod Llywodraeth Lleol, fydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gallu mesur ei berfformiad yn ei erbyn ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

10 CRYNODEB O'R CYNLLUN GWELLA A LLEIHAU RISG AC AMCANION Y STRATEGAETH ADNODDAU AR GYFER 2011-12

10.1 Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r amcanion ar gyfer 2011-12 sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2009-12 ynghyd a'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y Strategaeth Adnoddau yn codi o'r penderfyniadau cyllidol wnaeth gan yr Awdurdod.

10.2 Ynghyd â'r saith amcan a gytunwyd arnynt yn flaenorol, mae tri amcan strategaeth adnoddau arall wedi cael eu hychwanegu yn dilyn trafodaethau gosod y gyllideb. Bydd angen i swyddogion barhau i weithio gydag Aelodau i adnabod ffyrdd newydd o ostwng y gyllideb mewn blynyddoedd i ddod.

10.3 Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies os oedd y Gwasanaeth yn gwneud unrhyw beth i atal tanau rhag cael eu cynnau mewn adeiladau hanesyddol,

ysgolion a ffermydd ac os oes modd addysgu'r perchnogion ar sut i atal y mathau yma o danau. Eglurodd y Prif Swyddog Tân fod llosgi bwriadol yn y mathau yma o lefydd yn broblem, ac er bod gan y Gwasanaeth Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol, mae adnoddau yn brin ac mae'n dasg anodd cynnwys pob ardal. Roedd yn annhebyg y byddai unrhyw adnoddau eraill yn dod gal lywodraeth ganolog nac ychwaith gan bartneriaid o'r gwasanaethau brys eraill i ddelio gyda'r problemau. Nododd y Cynghorydd Doreen Mackie, wrth gyfeirio at yr Adroddiad Gwella blynyddol, fod y nifer o danau bwriadol yng Ngogledd Cymru yn is na'r cyfartaledd Cymreig oedd yn dangos canlyniadau da i'r Awdurdod yn nhermau gwaith atal troseddau.

10.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r saith Amcan Gwella;**

**ii) cymeradwyo'r tri Amcan Strategaeth Adnoddau ar gyfer 2011-12 fel a ganlyn:**

- **amcan A – newid agweddau o strwythur y sefydliad a ffyrdd o weithredu;**
- **amcan B – adolygu a gwella prosesau busnes mewnol;**
- **amcan C – cynllunio a pharatoi ar gyfer gostwng cyllideb 2012-13.**

11 DIWEDDARIAD ADOLYGIAD PEIRIANNAU ARBENNIG

11.1 Roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd a gweithrediad yr Adolygiad Peiriannau Arbennig.

11.2 Fel rhan o'r broses Cynllunio i Leihau Risg, ymgymerwyd ag adolygiad o'r ddarpariaeth o beiriannau arbennig yn 2003/4 gyda'r amcanion hir dymor o wella fflyd y Gwasanaeth. Arweiniodd hyn at nifer o newidiadau arwyddocaol i beiriannau arbennig ac, o ganlyniad, ymgymerwyd ag adolygiad o gynllun peiriannau tân safonol sydd wedi golygu cynllunio peiriant culach ar gyfer y rhaglen amnewid gyfredol.

11.3 Eglurodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod y pedwar tendr brys wedi cael eu trawsnewid yn Unedau Achub Technegol, Uned Cefnogi Digwyddiad ac uned achub dŵr ac anifeiliaid. Mae'r unedau yma wedi eu gosod yn strategol ar draws Gogledd Cymru.

11.4 Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i fabwysiadu safon 30 munud i'r ALPs, mae nifer o opsiynau'n cael eu ffurfio i archwilio lleoliadau'r ALPs yn y dyfodol. Bydd yr opsiynau yma'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod cyn diwedd bywyd gweithredol y pedwerydd ALP yn 2012.

11.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

12 GRŴP YMATEB I DDIGWYDDIAD AR Y MÔR (MIRG)

12.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yr adroddiad oedd yn edrych am gefnogaeth barhaus gan yr Awdurdod i gynnal y ddarpariaeth i'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad ar y Môr (MIRG) am y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y darlun cenedlaethol o ran cefnogaeth barhaus gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA).

12.2 Sefydlwyd MIRG i helpu gyda digwyddiadau'n ymwneud â thân, cemegau a damweiniau diwydiannol ar y môr. Dylid nodi fod gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA) ddyletswydd i anfon, trefnu a thasgu adnoddau i ymateb i bobl mewn trafferth ar y môr. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canol a Gorllewin a Gogledd Cymru yn rhan o'r prosiect ac roeddynt ymysg nifer o Wasanaethau Tân ac Achub oedd wedi nodi byddant yn cael trafferth argymell parhau gyda'r ddarpariaeth i MIRG yn yr hinsawdd economaidd bresennol pe byddai arian gan MCA yn cael ei dynnu nôl.

12.3 Cyfanswm y gost i MCA am y swyddogaeth yma yw oddeutu £550,000 y flwyddyn. Yn dilyn Adolygiad ar Wario Cynhwysfawr y Llywodraeth, rhaid i'r MCA weithredu gostyngiad o 22% yn gyllideb erbyn Mawrth 2015. Fodd bynnag, ar 16eg Mawrth 2011, derbyniwyd cadarnhad gan yr MCA y byddent yn parhau i ariannu'r ddarpariaeth MIRG yn ei fformat presennol am gyfnod o chwe mis yn unig o Ebrill 1af 2011.

12.4 Cost amcangyfrifedig cynnal y ddarpariaeth gan wasanaeth unigol yw £40,000 y flwyddyn. Ar ôl archwilio cymwyseddau personél Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a chostau cysylltiedig eraill, byddai'r gost fyddai ei angen gan Ogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf oddeutu £11,000, heb unrhyw gyfraniad gan MCA. Byddai parhau i ariannu'r gallu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf yn caniatáu peth amser i ail-werthuso'r sefyllfa, o ystyried y darlun cenedlaethol sy'n newid.

12.5 Gan nodi fod porthladd Caergybi yn ymestyn y dyfodol agos, roedd yr Aelodau'n unfrydol yn eu penderfyniad i gefnogi'r gwasanaeth. Cytunodd yr Aelodau i ddefnyddio cyfran fechan o danwariant arfaethedig y flwyddyn ariannol bresennol fel darpariaeth i liniaru'r gefnogaeth ariannol oedd yn cael ei dynnu `nol gan yr MCA.

12.6 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**
- **(ii) parhau i gefnogi MIRG o'r 1af Ebrill gan ddefnyddio arian o flwyddyn ariannol 2010/11, wedi ei gapio ar £,11,000 nes bod canfod darlun cliriach o'r ymrwymiad fydd ei angen yn y dyfodol.**
- **(iii) gytuno fod unrhyw danwariant o'r ddarpariaeth o £11,000 yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd yr Awdurdod; a**
- **(iv) nodi bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Awdurdod maes o law pan fydd y darlun cenedlaethol yn gliriach.**

13 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

13.1 Roedd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau'n rhoi gwybodaeth ar raglen waith y pwyllgor yn ystod 2010-11.

13.2 Roedd gan y Pwyllgor aelodaeth lawn ar hyn o bryd ac ni wnaed unrhyw gyfeiriad am ymddygiad Aelodau'r Awdurdod. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi edrych ar bolisïau Cwynion a Chwythu'r chwiban y Gwasanaeth ac wedi ystyried adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon.

13.3 Roedd y Cynghorydd T Roberts yn bryderus fod y pwyllgor yn `edrych am waith' yn hytrach nag yn delio gydag unrhyw faterion oedd yn codi. Cyfeiriodd at yr adroddiad ac awgrymiad y Clerc o gael aelod annibynnol yng Ngham 3 y Panel Cwynion. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi gwneud yr awgrymiad yma a'i ystyried i fod yn llywodraethu da ac un fyddai'n ychwanegu cyd-ddibyniaeth i'r panel.

13.4 Roedd y Cynghorydd P C Evans yn bryderus y gallai hyn achosi gwrthdaro pe byddai'r achwynydd yn cyflwyno'r gwyn i'r Ombwdsmon oedd wedyn yn ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau; nid oedd yn ei ystyried yn briodol cynnwys aelodau annibynnol mewn cwynion gweithredol. Mewn ymateb, eglurodd y Clerc ei fod yn weithdrefn cam 3 oedd yn delio gyda materion camweinyddiad ac mai cwynion ymddygiad oedd yn mynd at yr Ombwdsmon felly ni fyddai gwrthdaro.

13.5 Gofynnodd yr Aelodau am bleidlais, ac fe gytunwyd ar bleidlais fwyafrifol y dylai aelod annibynnol fod ar y Panel Cwynion Cam 3. Pleidleisio tri aelod yn erbyn y cynnig ac roedd dau wedi atal.

13.6 **PENDERFYNWYD**
**(i) derbyn cynnwys yr adroddiad; a**
**(ii) diwygio aelodau gweithdrefn cam 3 fel y nodwyd yn 13.5.**

14 SAFLE'R GYLLID GENEDLAETHOL - BWRDD EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

14.1 Roedd y Cynulliad wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Effeithiolrwydd ac Arloesi yn canolbwyntio ar gyflwyno effeithiolrwydd a gwella gwasanaethau yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru.

14.2 Awgrymodd y Clerc fod yr Awdurdod yn ymgymryd ag asesiad i asesu gwerth yr Awdurdod Tân ac Achub ar y bwrdd.

14.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

15 COFNODION ER GWYBODAETH

15.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2011
- Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 7fed Chwefror 2011
- Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13eg Ionawr 2011.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi cofnodion y cyfarfodydd.**

ADRODDIADAU RHAN II

16 RHAGLEN GYFALAF 2010/11 A 2011-2014

16.1 Roedd y rhaglen yn rhoi diweddariad i Aelodau ar raglen gyfalaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

16.2 Roedd y gwaith i foderneiddio ac ymestyn yr orsaf dân bresennol a swyddfa Diogelwch y Sir yn Llangefni wedi cael ei gwblhau ac fe gynhaliwyd y seremoni agoriadol swyddogol ar 14eg Hydref 2010.

16.3 Rhoddodd y Prif Swyddog Tan Cynorthwyol Colin Hanks ddiweddariad ar y datblygiadau diweddaraf ar Orsaf Dridarn Wrecsam.

16.4 Roedd gwaith cydymffurfio gyda'r DDA a Chydraddoldeb yn parhau mewn gorsafoedd tân ac adeiladau oedd angen cydymffurfio gyda deddfwriaeth anabledd a chydraddoldeb. Dylai'r holl waith yn y 23 gorsaf gael ei gwblhau erbyn Hydref 2011.

16.5 Roedd gwaith ar yr Ystafell Reoli Eilaidd yn adeilad Swyddfa Diogelwch y Sir yn y Rhyl wedi cael ei gwblhau. Bydd hyn yn sicrhau parhad swyddogaethau Ystafell Reoli Eilaidd a TGCh y Gwasanaeth.

16.6 Mae arian wedi cael ei ddyrannu tuag at waith cyfalaf arfaethedig yn adeiladau'r Gwasanaeth fydd yn cael ei gwblhau cyn 31ain Mawrth 2011. March 2011.

16.7 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r ffigyrau cyllideb arfaethedig ar gyfer gwaith cyfalaf yn ystod y 3 blynedd ariannol nesaf, yn amodol ar sefydlu ffigyrau gyllideb ar gyfer 2012/13 a 2013/14.**

MATER BRYS

17 CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH Y GWASANAETHAU ARIANNOL

Gadawodd Ken Finch a Philip Evans y cyfarfod yn y man hwn.

17.1 Hysbysodd y Clerc yr Aelodau fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddarparu gwasanaethau ariannol a thrysorlys yn dod i ben ar 31ain Mawrth 2011. Bwriedir parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am bedair blynedd arall. Nodwyd fod yr Awdurdod wedi derbyn lefel uchel o wasanaeth gan y Cyngor ers 1996 ac yn barod i barhau gyda'r trefniant.

17.2 **PENDERFYNWYD nodi byddai'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael ai adnewyddu am bedair blynedd arall o 1af Ebrill 2011.**